| | |
|---|---|
| Pwyllgor: | Cyngor |
| Dyddiad y cyfarfod: | 21 Rhagfyr 2022 |
| Testun yr Adroddiad: | Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022/27 |
| Deiliad Portffolio: | Y Cynghorydd Steve Thomas / Gwasanaethau Corfforaethol |
| Cyflwynwyd yr Adroddiad gan: | Emma Scherptong, Arweinydd Proffesiynol ar gyfer Ymgysylltu, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg |

| Llwybr Adrodd | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth** | **Tîm Arwain Corfforaethol** | **Deiliad / Cadeirydd Portffolio** | **Pwyllgor Archwilio** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** | **Pwyllgor Craffu** | **Pwyllgor Gwaith** | **Y Cyngor** | **Arall (nodwch)** |
| | 10.11.22 | 07.12.22 | | | 15.12.22 | | 21.12.22 | |

1. **Pwrpas yr Adroddiad**
Pwrpas yr Adroddiad yw cyflwyno Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg y Cyngor 2022/27.

2. **Cwmpas a Chefndir**

2.1 Mae gan y Cyngor rwymedigaeth gyfreithiol i gynhyrchu a chyhoeddi'r strategaeth o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Safon 145 a Safon 146 fel y nodir isod:

2.2 **Safon 145**

Rhaid ichi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill) —

(a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw, a

(b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid ichi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).

2.3 **Safon 146:**

Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 rhaid ichi —

(a) asesu i ba raddau yr ydych wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi, a

(b) cyhoeddi'r asesiad ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn —

(i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oedran y siaradwyr hynny;

(ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gennych neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.

3. **Opsiynau ar gyfer Argymhelliad**

3.1 Roedd y Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol wedi nodi drafft Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022/27 (Atodiad 1) ac Asesiad (Atodiad 2) ar 10 Tachwedd 2022.

3.2 Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Trosolwg a Pherfformiad Corfforaethol ar 15 Rhagfyr 2022, a rhoddir adroddiad llafar i'r Cyngor ar unrhyw adborth.

3.3 **Opsiwn 1**
I'r Cyngor ystyried a chymeradwyo Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022/27 ar gyfer ei chyhoeddi.

**Opsiwn 2**
I'r Cyngor ystyried a chymeradwyo Strategaeth Hyrwyddo'r Cymraeg 2022-27, gyda newidiadau, cyn ei chyhoeddi.

4. **Tystiolaeth o sut mae'r pwnc hwn yn cefnogi cyflawniad y Cynllun Corfforaethol / Cyfrifoldebau Statudol / Cynllun Llesiant Blaenau Gwent**

4.1 Mae gofyniad statudol ar y Cyngor i gynhyrchu a chyhoeddi Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg pum mlynedd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

4.2 Mae'r strategaeth wedi'i halinio a'i chydnabod o fewn Cynllun Corfforaethol Blaenau Gwent 2022/27 a bydd yn cefnogi gweledigaeth y Cyngor o 'Blaenau Gwent – lle sy'n deg, yn agored ac yn groesawgar i bawb drwy weithio gyda'n cymunedau ac ar eu rhan'. Wrth nodi'r Gymraeg fel mesur perfformiad allweddol i'n helpu i gyflawni ein blaenoriaethau, mae'n dangos yn gadarnhaol ein hymrwymiad a'n cefnogaeth barhaus tuag at godi proffil a defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r strategaeth hefyd yn cyfrannu at y nod llesiant cenedlaethol o 'Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

5. **Goblygiadau Yn Erbyn Pob Opsiwn**

5.1 ***Effaith ar y Gyllideb (effaith tymor byr a hirdymor)***

Gallai methu â chydymffurfio â’r gofyniad i lunio strategaeth hyrwyddo’r Gymraeg arwain at gosbau ariannol gan Gomisiynydd y Gymraeg. Y ffigwr a ddyfynnwyd yw £5,000 am doriad. Mae gofyniad ariannol bychan ar gyfer cyfieithu'r strategaeth i'r Gymraeg. Bydd angen i'r gyllideb Polisi a Phartneriaethau gwrdd â hyn.

5.2 ***Risg gan gynnwys Camau Gweithredu Lliniaru***

Mae risg i enw da’r Cyngor os na chaiff Strategaeth Hyrwyddo’r Gymraeg 2022/27 ei chyhoeddi, neu os na chaiff ei chyhoeddi mewn pryd.

Gall Comisiynydd y Gymraeg ymchwilio heb rybudd ac mae ganddo’r awdurdod i ennill pŵer mynediad. Gallai unrhyw dystiolaeth o fethu â chydymffurfio â Safon arwain at gosb.

5.3 ***Cyfreithiol***

Mae gofyniad statudol ar y Cyngor i lunio a chyhoeddi strategaeth hyrwyddo’r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Safon y Gymraeg 145).

5.4 ***Adnoddau Dynol***

Mae gan Datblygu Sefydliadol rôl allweddol i’w chwarae wrth gefnogi Amcan 3 – ‘Byddwn yn cynyddu’r cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg yn y gweithle’, gan gynnwys cefnogi hyfforddi staff mewn sgiliau ac ymwybyddiaeth o’r Gymraeg a hybu sgiliau Cymraeg drwy ei bolisïau a gweithdrefnau recriwtio.

## 6. Tystiolaeth Ategol

6.1 ***Gwybodaeth a Data Perfformiad***

6.1.1 Mae Safon y Gymraeg 145 yn nodi gofyniad i osod “targed (o ran canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal” erbyn 2027 a “datganiad yn nodi sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw”.

6.1.2 Er mwyn cyrraedd targed o gynnydd o 46% yn nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, byddai angen i ni ennill 1,856 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol yn erbyn llinell sylfaen Cyfrifiad 2021 Blaenau Gwent o 4,035.

6.1.3 Felly, mae hyn yn cynrychioli cynnydd blynyddol cyfartalog o 66 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol h.y., 4% o’r ffigur targed o 1,856 ychwanegol ym Mlaenau Gwent am y 28 mlynedd nesaf.

6.2 ***Canlyniad disgwyliedig i'r cyhoedd***

Mae cynhyrchu a chyhoeddi’r adroddiad yn enghreifftio ymrwymiad y Cyngor i’r gymuned Gymraeg ei hiaith o fewn yr ardal ac yn ceisio cyflawni’r canlyniadau a ganlyn:

- Mwy o bobl yn ymgysylltu â'r Gymraeg
- Mwy o bobl yn dod yn rhugl yn y Gymraeg

- Mwy o weithwyr y Cyngor yn gallu defnyddio'r Gymraeg

6.3 ***Ymglymiad (ymgynghori, ymgysylltu, cyfranogiad)***
Cyflawnwyd ymglymiad i lywio datblygiad Strategaeth Hyrwyddo’r Gymraeg 2022/27 mewn dau gam:

6.3.1 **Cam 1 (ymgysylltu anffurfiol)**
Casglwyd mewnwelediad y dinesydd a phroffesiynolion i benderfynu beth wnaethom yn dda; ble y gallwn wella ac a oes unrhyw fylchau yn ein dull o gyflawni ein hen Strategaeth Hyrwyddo’r Gymraeg 2017/22.

6.3.2 **Cam 2 (ymgynghoriad ffurfiol)**
Fe wnaethom gyflwyno amrywiaeth o weithgareddau ymgynghori gan gynnwys arolwg ar-lein, cynnig gweithdai, a chynnal amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu anffurfiol (ar gael yn Gymraeg a Saesneg).

6.3.3 **Ymgynghorwyr:**
- Tîm Arwain Corfforaethol
- Tîm Arwain Corfforaethol Ehangach
- Staff Cyngor Blaenau Gwent
- Aelodau
- Ysgolion Uwchradd a Chynradd Blaenau Gwent (disgyblion a rhieni)
- Hybiau Cymunedol Blaenau Gwent
- Rhwydwaith Cymraeg Blaenau Gwent
- Fforwm Cymraeg mewn Addysg Blaenau Gwent
- Ysgol Uwchradd Gwynllyw (disgyblion a rhieni)
- Comisiynydd y Gymraeg
- Grŵp Deddf
- Cymdeithas Gymraeg Blaenau Gwent
- Fforwm Ieuenctid a Rhwydwaith Ieuenctid Blaenau Gwent
- Rhwydwaith Pobl Hŷn
- Panel Dinasyddion Blaenau Gwent
- Grŵp Ymgysylltu’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Partneriaeth Cyflenwi Lleol Blaenau Gwent

6.3.4 Cawsom 39 o ymatebion i’n harolwg ar-lein. Ystyriwyd a defnyddiwyd yr adborth i lywio datblygiad ein cynllun terfynol. Mae crynodeb o’r canfyddiadau fel a ganlyn:

- Ar y cyfan, cafwyd adborth cadarnhaol ynglŷn â defnydd iaith y cynlluniau. Dywedodd pobl wrthym ei fod yn gryno, yn hawdd ei ddarllen, ac yn ddealladwy.
- Roedd pobl yn gefnogol i'n targed ond yn nodi y gallem fod yn fwy uchelgeisiol. Dywedodd pobl wrthym y dylai'r cynllun ganolbwyntio ar addysg a dysgu i oedolion.
- Roedd rhai pobl yn rhannu pryderon ynghylch cael Strategaeth Hyrwyddo’r Gymraeg ar gyfer Blaenau Gwent a'i bod yn cael ei

gwneud yn flaenoriaeth yn erbyn materion dybryd cyfredol (er enghraifft, argyfwng Costau Byw), o ystyried mai Blaenau Gwent sydd â'r nifer lleiaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Ystyriwyd yr adborth hwn ac mae'n nodi'r angen i flaenoriaethu newid cadarnhaol mewn agwedd tuag at y Gymraeg yn yr ardal fel cam gweithredu ar draws pob un o'n tri amcan.

- Amcan un - 67% o'r cyfranogwyr yn pleidleisio eu bod yn weddol neu'n gwbl gefnogol.
- Amcan dau - 80% o'r cyfranogwyr yn pleidleisio eu bod yn weddol neu'n gwbl gefnogol.
- Amcan tri - 75% o'r cyfranogwyr yn pleidleisio eu bod yn weddol neu'n gwbl gefnogol.

6.4 ***Meddwl ar gyfer y tymor hir (cynllunio ymlaen llaw)***
Mae gan Flaenau Gwent Strategaeth Iaith Gymraeg ers 1993 sy'n dangos ymrwymiad hirdymor i'r Gymraeg. Mae Blaenau Gwent wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg yn y fwrdeistref drwy ei Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2022/27 pum mlynedd.

6.5 ***Ffocws ataliol***
Bydd bodloni'r gofynion a osodwyd gan Safonau'r Gymraeg, sy'n cynnwys cwblhau'r strategaeth hyrwyddo'r Gymraeg, yn anelu at atal risg i enw da ac ariannol.

6.6 ***Cydweithio / gweithio mewn partneriaeth***
Bydd Blaenau Gwent yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol cyfagos a rhanbarthol i gefnogi hyrwyddo'r Gymraeg. Bydd hefyd yn gweithio ochr yn ochr â Rhwydwaith Cymraeg Blaenau Gwent sy'n cynnwys cynrychiolaeth o sefydliadau Cymraeg lleol a grwpiau cymunedol, a'r Fforwm Cymraeg mewn Addysg sy'n cefnogi cyflawni Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32.

6.7 ***Integreiddio (ar draws meysydd gwasanaeth)***
Drwy ystyried ymagwedd gorfforaethol tuag at y Gymraeg mae'r Cyngor yn dangos ei fod yn mabwysiadu ymagwedd integredig.

6.8 ***Datgarboneiddio a Lleihau Allyriadau Carbon***
Bydd hyrwyddo'r Gymraeg a chynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg lleol yn darparu gwell hygyrchedd i wasanaethau Cymraeg yn y fwrdeistref.

6.9 ***Asesiad Effaith Integredig (AEI)*** *(dylai'r templed sgrinio gael ei gwblhau ar gyfer unrhyw benderfyniadau i nodi a oes angen asesiad effaith integredig llawn. Bydd angen cwblhau AEI llawn os yw'r penderfyniad yn rhan o'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol i ystyried sut y gallai'r penderfyniad helpu i leihau'r anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol).*

Gweler 'Dogfennau Cefndir / Dolenni Electronig'.

7. **Trefniadau Monitro**

7.1 *Nodwch sut bydd y gwaith yn cael ei fonitro e.e. drwy drefniadau craffu neu reoli perfformiad cyfarwyddiaeth.*

Cyflwynir Strategaeth Hyrwyddo’r Gymraeg 2022/27 i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Trosolwg a Pherfformiad Corfforaethol.

**Dogfennau Cefndir / Cysylltiadau Electronig**

- *Strategaeth Hyrwyddo’r Gymraeg Drafft 2022/27*
- *Asesiad o Strategaeth Hyrwyddo’r Gymraeg 2017/22*
- *Asesiad Effaith Integredig*